**Ymgynghoriad ar gyllid Llywodraeth Cymru 2012-2013**

**Ymateb Mentrau Iaith Cymru**

## Amdano ni

Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991, ac yn y blynyddoedd ers hynny mae gryn dipyn o awydd yn ardaloedd eraill Cymru i sefydlu Menter Iaith leol. Erbyn 2011 mae 22 Menter Iaith yng Nghymru.
Mae'r Mentrau Iaith yn cael eu rheoli gan Bwyllgor Rheoli gwirfoddol, sef unigolion o'r gymuned leol ac maent yn gweithio mewn partneriaeth gydag amryw o sefydliadau eraill. Mae pob Menter Iaith yn gweithredu mewn ffordd unigryw yn ddibynnol ar yr anghenion lleol, gyda strategaethau, dulliau gweithredu, targedau, nifer o staff a throsiant gwahanol. Mae'r Mentrau Iaith yn chwim ac yn hyblyg, yn medru trawsnewid, esblygu a datblygu yn gyflym os yw'r angen a'r awydd yn y gymuned. Mae'r amrywiaeth yma a'r ffurfiau i ffitio i anghenion y gymuned yn gryfder i'w groesawu.
Y Mentrau Iaith yw'r ffordd mae cymunedau lleol Cymru yn gweithredu er budd y Gymraeg. Mae wedi bod yn fodel hynod lwyddiannus dros y blynyddoedd ac yn cael ei gydnabod fel ffordd effeithiol o ddatblygu cymuned sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol.

Cafodd Mentrau Iaith Cymru ei sefydlu yn 1999, pan oedd y Mentrau lleol yn gweld bod angen cydweithio yn agosach, rhannu syniadau ac arfer da. Fe'i sefydlwyd gydag aelodau o Bwyllgorau Rheoli'r Mentrau yn aelodau Pwyllgor Rheoli Mentrau Iaith Cymru. Mae'r drefn yma wedi parhau ers hynny. Felly mae Mentrau Iaith Cymru yn cynrychioli barn cymunedau ar hyd a lled Cymru.
Mae Mentrau Iaith Cymru yn bodoli i gefnogi gwaith y Mentrau Iaith ac er budd y Gymraeg. Mae Mentrau Iaith Cymru yn teimlo'n gryf fod gan y Mentrau Iaith rôl hanfodol i chwarae i wireddu'r amcanion o gynyddu defnydd o'r iaith yn ein cymunedau. Mae'r Gymraeg angen y Mentrau Iaith, y sefydliadau sydd yn gweithredu ar ran ein cymunedau, gan y cymunedau. Heb y Mentrau Iaith fydd dim o brofiadau, syniadau a gweledigaethau pobl ar lawr gwlad yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r Gymraeg.

## Ein Ymateb

1. O edrych ar y dyrianiadau cyllidebol dangosol ar gyfer 2012-13, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol?

Y peth cyntaf sydd yn dod i'n sylw yw nad oes cynnwys gwybodaeth ariannol o gwbl am y Comisiynnydd Iaith newydd fydd yn ei swydd cyn 2012, ac yn weithredol yn y blwynyddoedd ariannol dan sylw yn y ddogfen cyllidol. Mae wedi ei grybwyll yn y ddogfen Cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol 2011-12 (276KB)

Yr unig son am ariannu'r iaith Gymraeg, yw 'Bwrdd yr Iaith Cymraeg' dan y penawd 'Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau' ar dudalen 12.

Ni fydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn bodoli o'r flwyddyn ariannol 2012-2013 ymlaen, felly mae'n destun pryder i ni ei fod wedi ei gynnwys fel penawd tan 2014.

2. O edrych ar y dyraniadau cyllidebol dangosol ar gyfer 2012-13, a oes gennych unrhyw bryderon am agweddau penodol arnynt?

Oes. Mae tanwariant wedi bod ar gyfer gweithredu a chyflawni stratagaeth Iaith Pawb yn y gorffennol . Rydym yn pryderu na fydd digon o adnoddau i wireddu y strategaeth iaith diweddaraf Iaith Fyw:Iaith Byw. Mae'r ddogfen yn uchelgeisiol, sydd i'w ganmol, ond teimlwn fod angen mwy o adnoddau i'w gwireddu na sydd ar gael ar hyn o bryd yn y gyllideb.

Ar ben hyn, mae costau sefydlu swyddfa'r comisiynnydd iaith, integreiddio Bwrdd yr Iaith i'r Llywodraeth ayb. Tydan ni ddim yn gwybod lle mae'r costau hyn yn dod o, ac yn pryderu os yw'r costau hyn yn dod o gyllideb y Gymraeg bydd llai o adnoddau ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru am wneud Cymru yn wlad dwyieithog, ac rydym yn croesawu hyn. Ond ein cwestiwn ni yw a yw hyn yn bosib wrth i ddim ond 0.0009% o gyllideb y Llywdraeth gael ei glustnodi i'r Gymraeg yn benodol. Os yw'r awydd i brif ffrydio'r

3. Pa ddisgwyliadau sydd gennych am y cynigion cyllideb ddrafft ar gyfer 2012- 13? Pa ymrwymiadau gwariant a blaenoriaethau yr hoffech eu gweld yng nghynigion y gyllideb ddrafft at gyfer 2012-13?

Y Gymraeg yn cael y gefnogaeth ariannol mae ei angen ar gyfer cael gwir effaith yng Nghymru gyfan.

4. Nid yw Llywodraeth newydd Cymru wedi cyhoeddi rhaglen lywodraethu eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei bod yn ceisio dilyn trywydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gyda'r Prif Weinidog yn datgan:"delivery will be the watchword of the next Welsh Labour government."[2] Pa ganlyniadau—os o gwbl—dylai Llywodraeth Cymru geisio eu cyflawni drwy ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13?

Sicrhau medru mesur effaith a llwyddiant, ac medru rhoi cost ar y llwyddiant hwnw er mwyn ei ddyblygu eto yn ol yr angen. Hefyd medru cwtogi ar weithgaredd os nad yw yn llwyddo.
Angen sicrhau bod adnoddau ar gael i gynnal y gwaith ymchwil a mesur sydd ei angen i ddod i benderfyniadau ar beth sydd yn gweithio a beth sydd ddim.

5. A allwch awgrymu unrhyw elfennau a ddylai gael eu cynnwys yng nghynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13 i gynorthwyo cydweithio mwy effeithiol?

- Cronfa i alluogi mudiadau bach a chanolig i wneud newidiadau yn eu dulliau gweithredu fydd yn cynnig arbedion tymor hir i'r Llywodraeth. Da ni'n ymwybodol o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, ond teimlwn fod angen cronfa tebyg i fudiadau llai, sydd ddim o reidrwydd yn cael eu ariannu ynuniongyrchol gan y Llywodraeth.